



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**\*\*Dan Embargo: Nid yw hwn i'w gyhoeddi, ei ddarlledu na'i ddefnyddio ar gyfryngau Cymdeithasol tan Ddydd Iau 9 Medi 2021, 10.00am\*\***

---

## **DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU**

---

**TEITL** Adolygiad o Ffiniau Etholiadol Awdurdodau Lleol – yr wybodaeth ddiweddaraf

**DYDDIAD** 9 Medi 2021

**GAN** Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Ar 16 Mehefin, ysgrifennais at yr Aelodau i amlinellu sefyllfa bresennol y rhaglen o Adolygiadau Trefniadau Etholiadol sy'n mynd rhagddi. Nodais hefyd sut yr oeddwn yn bwriadu cyfathrebu fy mhenderfyniadau ynglŷn â phob ardal.

Roedd hyn yn cynnwys fy ymrwymiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau yn rheolaidd drwy ddatganiadau ysgrifenedig. Dyma'r chweched o'r datganiadau hynny.

Ar 8 Medi, ysgrifennais at Arweinydd a Phrif Weithredwr Sir Ddinbych i gadarnhau fy mhenderfyniad i dderbyn argymhellion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gydag addasiadau, mewn perthynas â Sir Ddinbych.

Mae Adroddiad Argymhellion Terfynol Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ar gyfer Sir Ddinbych ar gael [yma](#). Mae'r addasiadau i'r argymhellion hyn wedi'u nodi yn yr atodiad i'r datganiad hwn.

Yn ogystal, ysgrifennais at Arweinydd a Phrif Weithredwr Sir Benfro i gadarnhau fy mhenderfyniad i dderbyn argymhellion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gydag addasiadau, mewn perthynas â Sir Benfro.

Mae Adroddiad Argymhellion Terfynol Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ar gyfer Sir Benfro ar gael [yma](#). Mae'r addasiadau i'r argymhellion hyn wedi'u nodi yn yr atodiad i'r datganiad hwn.

Bydd datganiad hwn yn cael ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn hysbysu'r aelodau. Pe bai aelodau'n dymuno imi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ar hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd, byddwn yn hapus i wneud hynny.

Addasiadau a wnaed i Argymhellion Terfynol y Comisiwn ar gyfer trefniadau etholiadol yr ardaloedd canlynol.

#### Sir Ddinbych

- Cynigiodd y Comisiwn y dylid cadw'r enw Efenechtyd. Bydd yr enw unigol Efenechtyd yn cael ei roi i'r ward etholiadol.
- Cynigiodd y Comisiwn yr enw Cymraeg Prestatyn Gallt Melyd. Bydd yr enw Cymraeg Prestatyn Alltmelyd yn cael ei roi i'r ward etholiadol.
- Cynigiodd y Comisiwn yr enw Cymraeg De Orllewin Prestatyn. Bydd yr enw Cymraeg De-orllewin Prestatyn yn cael ei roi i'r ward etholiadol.
- Cynigiodd y Comisiwn yr enw Cymraeg Dwyrain Y Rhyl. Bydd yr enw Cymraeg Dwyrain y Rhyl yn cael ei roi i'r ward etholiadol.
- Cynigiodd y Comisiwn yr enw Cymraeg De Y Rhyl. Bydd yr enw Cymraeg De'r Rhyl yn cael ei roi i'r ward etholiadol.
- Cynigiodd y Comisiwn yr enw Cymraeg De Orllewin Y Rhyl. Bydd yr enw Cymraeg De-orllewin y Rhyl yn cael ei roi i'r ward etholiadol.
- Cynigiodd y Comisiwn yr enw Cymraeg Gorllewin Y Rhyl. Bydd yr enw Cymraeg Gorllewin y Rhyl yn cael ei roi i'r ward etholiadol.
- Cynigiodd y Comisiwn yr enw Cymraeg Trellewelyn Y Rhyl. Bydd yr enw Cymraeg Y Rhyl Trellewelyn yn cael ei roi i'r ward etholiadol.

#### Sir Benfro

- Argymhellodd y Comisiwn y dylid rhoi i ward etholiadol a elwir yn Saesneg Milford West yr enw Cymraeg Aberdaugleddau: Gorllewin. Bydd yr enw Cymraeg Gorllewin Aberdaugleddau yn cael ei roi i'r ward etholiadol.
- Argymhellodd y Comisiwn y dylid rhoi i ward etholiadol a elwir yn Saesneg Milford East yr enw Cymraeg Aberdaugleddau: Dwyrain. Bydd yr enw Cymraeg Dwyrain Aberdaugleddau yn cael ei roi i'r ward etholiadol.
- Argymhellodd y Comisiwn y dylid rhoi i ward etholiadol a elwir yn Saesneg Milford: North yr enw Cymraeg Aberdaugleddau: Gogledd. Bydd yr enw Cymraeg Gogledd Aberdaugleddau yn cael ei roi i'r ward etholiadol.
- Argymhellodd y Comisiwn y dylid rhoi i ward etholiadol a elwir yn Saesneg Milford: Central yr enw Cymraeg Aberdaugleddau: Canol. Bydd yr enw Cymraeg Canol Aberdaugleddau yn cael ei roi i'r ward etholiadol.
- Argymhellodd y Comisiwn y dylid rhoi i ward etholiadol a elwir yn Saesneg Narberth: Rural yr enw Cymraeg Arberth: Gwledig. Bydd yr enw Cymraeg Arberth Wledig yn cael ei roi i'r ward etholiadol.

- Argymhellodd y Comisiwn y dylid rhoi i ward etholiadol a elwir yn Saesneg Narberth: Urban yr enw Cymraeg Arberth: Trefol. Bydd yr enw Cymraeg Arberth Drefol yn cael ei roi i'r ward etholiadol.
- Argymhellodd y Comisiwn yr enw etholiadol unigol The Havens. Bydd yr enw Cymraeg Yr Aberoedd yn cael ei roi i'r ward etholiadol.
- Argymhellodd y Comisiwn y dylid rhoi i ward etholiadol a elwir yn Saesneg St Ishmael yr enw Cymraeg Llanisan yn Rhos. Bydd yr enw Cymraeg Llanisan-yn-Rhos yn cael ei roi i'r ward etholiadol.
- Argymhellodd y Comisiwn y dylid rhoi i ward etholiadol a elwir yn Saesneg Pembroke Dock: Central yr enw Cymraeg Doc Penfro: Canol. Bydd yr enw Cymraeg Canol Doc Penfro yn cael ei roi i'r ward etholiadol.
- Argymhellodd y Comisiwn y dylid rhoi i ward etholiadol a elwir yn Saesneg Pembroke Dock: Market yr enw Cymraeg Doc Penfro: Farchnad. Bydd yr enw Cymraeg Doc Penfro: Y Farchnad yn cael ei roi i'r ward etholiadol.
- Argymhellodd y Comisiwn y dylid rhoi i ward etholiadol a elwir yn Saesneg Haverfordwest: Castle yr enw Cymraeg Hwlffordd: Castell. Bydd yr enw Cymraeg Hwlffordd: Y Castell yn cael ei roi i'r ward etholiadol.
- Argymhellodd y Comisiwn y dylid rhoi i ward etholiadol a elwir yn Saesneg Haverfordwest: Priory yr enw Cymraeg Hwlffordd: Priordy. Bydd yr enw Cymraeg Hwlffordd: Y Priordy yn cael ei roi i'r ward etholiadol.
- Argymhellodd y Comisiwn y dylid rhoi i ward etholiadol a elwir yn Saesneg Lampeter Velfrey yr enw Cymraeg Llanbedr Efelffre. Bydd yr enw Cymraeg Llanbedr Felffre yn cael ei roi i'r ward etholiadol.
- Argymhellodd y Comisiwn y dylid rhoi i ward etholiadol a elwir yn Saesneg Neyland: East yr enw Cymraeg Neyland: Dwyrain. Bydd yr enw Cymraeg Dwyrain Neyland yn cael ei roi i'r ward etholiadol.
- Argymhellodd y Comisiwn y dylid rhoi i ward etholiadol a elwir yn Saesneg Neyland: West yr enw Cymraeg Neyland: Gorllewin. Bydd yr enw Cymraeg Gorllewin Neyland yn cael ei roi i'r ward etholiadol.
- Argymhellodd y Comisiwn y dylid rhoi i ward etholiadol a elwir yn Saesneg Tenby: North yr enw Cymraeg Dinbych-y-Pysgod: Gogledd. Bydd yr enw Cymraeg Gogledd Dinbych-y-pysgod yn cael ei roi i'r ward etholiadol.
- Argymhellodd y Comisiwn y dylid rhoi i ward etholiadol a elwir yn Saesneg Tenby: South yr enw Cymraeg Dinbych-y-Pysgod: De. Bydd yr enw Cymraeg De Dinbych-y-pysgod yn cael ei roi i'r ward etholiadol.
- Argymhellodd y Comisiwn y dylid rhoi i ward etholiadol a elwir yn Saesneg Fishguard North East yr enw Cymraeg Abergwaun: Gogledd Ddwyrain. Bydd yr enw Cymraeg Gogledd-ddwyrain Abergwaun yn cael ei roi i'r ward etholiadol.
- Argymhellodd y Comisiwn y dylid rhoi i ward etholiadol a elwir yn Saesneg Fishguard: North West yr enw Cymraeg Abergwaun: Gogledd Orllewin. Bydd yr enw Cymraeg Gogledd-orllewin Abergwaun yn cael ei roi i'r ward etholiadol.